Bwletin Awdurdod S4C
Cyfarfod 284 –16 Rhagfyr 2005
S4C, Caerdydd

Mae'r bwletin hwn yn adrodd ar gyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 16 Rhagfyr, 2005.

Cofnodion Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg

Nodwyd y cofnodion o'r cyfarfod uchod a gynhaliwyd ar 30 o Fedi 2005.

Adroddiad Y Cadeirydd

Cyflwynodd ECS ei hadroddiad. Nodwyd/codwyd y pwyntiau canlynol:

- *Polisi Rhaglenni* (gweler isod)
- *Cyfarfod "Diwrnod i Ffwrdd"* – trafodwyd pwyntiau gweithredu ar gyfer yr Agenda.
- *Taith Efrog Newydd* – Adroddodd ECS ar ei hymweliad ag Efrog Newydd lle cyfarfu â chynrychiolwyr Sony â Llywydd Cymdeithas Dewi Sant. Cafwyd trafodaeth ar sut i gysylltu â chymdeithasau Cymraeg tramor er mwyn hyrwyddo S4C ar fandllydan.

Adolygiad o Bolisi Rhaglenni 2005

Cyflwynodd ED ei hadolygiad drafft o Bolisi Rhaglenni 2005. Angen i'r Tîm Rheoli gael cyfle i ymateb i'r papur drafft. Angen cysylltu ag Ofcom ynglŷn â ffurf yr adolygiad uchod.

Adroddiad ar Bwyntiau Gweithredu

Nodwyd adroddiad Ifer Arch ar bwyntiau gweithredu'n codi o gyfarfod yr Awdurdod ar 25 Tachwedd, 2005. Penderfynwyd cyfeirio cwyn gan Gyngor Sir Gwynedd at y Pwyllgor Cwynion. Penderfynwyd hefyd bod angen adolygu'r Còd Cwynion mewn perthynas ag amseriad unrhyw gwyn.

Cytundeb Monitro Rhaglenni 2005

Angen penderfynu faint o gyfraniad sydd ei angen o'r Grŏp Cydymffurfiaeth cyn tendro am gytundeb monitro newydd. Y Tîm Rheoli i restri pa wybodaeth y byddai'n ddefnyddiol iddynt ei dderbyn gan y grŏp monitro.

Grŵp Cydymffurfiaeth a chofnod cyfarfod y Grŵp ar 2 Rhagfyr 2005

Nodwyd yr adroddiad a'r cofnodion a derbyniwyd yr aralleiriad i'r casgliad ynglŷn â chydbwysedd gwleidyddol adeg Etholiad 2005.

Adroddiad Prif Weithredwr

Codwyd/nodwyd y pwyntiau canlynol:-

- **BBC** – nodwyd y cytundeb partneriaeth drafft rhwng y BBC ac S4C. Esboniwyd taw drafft S4C oedd hwn a bod EM a David Fawcett (BBC) yn cyfarfod y prynhawn hwnnw i'w drafod.
- **Llythrennedd Cyfryngol** – Cytunwyd y dylai S4C ymrwymo i'r Siarter Llythrennedd Cyfryngol.
- **Pwyllgor Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon San Steffan** - Rhoddwyd crynodeb o'r cyflwyniad ardderchog a rhoddwyd gan IJ ac AR yn y Senedd ar y 6ed o Ragfyr.
- **Datganiad Polisi Rhaglenni 2006** – Nodwyd y byddai drafft o'r datganiad yn dilyn maes o law.
- **DCMS** - Nodwyd bod Andrew Ramsay a Jon Zeff yn ymweld ag S4C ddydd Mercher, 21 Rhagfyr.
- **ITV** – Nodwyd bod IJ yn cwrdd â chynrychiolwyr o ITV yn Llundain yr wythnos nesaf.
- Nodwyd bod Prif Weithredwr newydd BARB wedi ymweld ag S4C lle cafwyd cyfle i drafod ffigurau gwylio mewn manylder.
- Nododd IJ ei bod hi wedi derbyn gwahoddiad i fod yn Gadeirydd Panel Skillset Cymru a bod hi wedi cael ei gwahodd i fod yn Is-lywydd y Gymdeithas Teledu Frenhinol.

Materion Eraill

Yn ogystal trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad Ariannol
- Adroddiad Cwynion a Gwifren Gwylwyr

Adroddiad Cyfeiriadau Masnachol (gan Uned Fonitro Aberystwyth).